

No.

## PWYLLGOR CYNLLUNIO

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 27 Ebrill, 2022.

Mae'r Agenda ar gael [yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar gael [yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd J.C. Bird (Cadeirydd); Cynghorydd B.T. Gray (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr J. Aviet, R.M. Birch, C.A. Cave, P. Drake, V.P. Driscoll, N.P. Hodges, Dr. I.J. Johnson, G.C. Kemp, A.C. Parker, L.O. Rowlands, N.C. Thomas, E. Williams a M.R. Wilson.

Hefyd yn bresennol: Y. Cynghorydd N. Moore (Arweinydd Gweithredol ac Aelod Cabinet Perfformiad ac Adnoddau).

<b>Enw'r Llefarydd</b>	<b>Rhif Cais Cynllunio a Lleoliad</b>	<b>Rheswm dros Siarad</b>
Y Cynghorydd Ian Perry	2022/00066/RG3 - Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sain Nicolas	Gwrthwynebwr y cais neu ei gynrychiolydd.
Mr. Bryan Davies	2022/00066/RG3 - Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sain Nicolas	Gwrthwynebwr y cais neu ei gynrychiolydd.
Fideo 2 funud gan ddisgyblion (yn lle siaradwr y Pennaeth)  Am resymau technegol, ni chwaraewyd y fideo hwn.	2022/00066/RG3 - Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sain Nicolas	Ymgeisydd neu ei gynrychiolydd.
Mrs. Ceri Hunt	2022/00066/RG3 - Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sain Nicolas	Ymgeisydd neu ei gynrychiolydd.
Mr. Nathan Slater	2022/00066/RG3 - Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sain Nicolas	Ymgeisydd neu ei gynrychiolydd.
Mr. Wayne Locke	2021/00439/FUL - Hillside, Pendeulwyn	Gwrthwynebwr y cais neu ei gynrychiolydd.
Mr. Robert Hathaway	2021/00439/FUL - Hillside, Pendeulwyn	Ymgeisydd neu ei gynrychiolydd.

No.

1072 CYHOEDDIAD -

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

1073 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan Gyngorwyr S.T. Edwards a M. Wright.

1074 COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 30 Mawrth, 2022 fel cofnod cywir.

1075 DATGANIADAU BUDDIANT –

Y Cyngorydd A.C Parker	2021/00439/FUL - Hillside, Pendeulwyn	Buddiant Personol a Rhagfarnus – Y Cyngorydd Parker oedd y pensaer. Tynnodd yn ôl o'r cyfarfod ac ni chymerodd unrhyw ran yn y drafodaeth na'r bleidlais.
------------------------	---------------------------------------	---

1076 CEISIADAU RHEOLI ADEILADAU A MATERION RHEOLI ADEILADAU ERAILL A BENDERFYNWYD GAN BENNAETH ADFYWIO A CHYNLLUNIO DAN BWERAU DIRPRWYEDIG (PAC) –

PENDERFYNWYD –

- (1) Nodi'r ceisiadau rheoliadau adeiladau a gytunwyd, fel y'u rhestrir yn Adran A o'r adroddiad.
- (2) Y dylid nodi'r ceisiadau adeiladu a wrthodwyd, fel y'u rhestrir yn Adran B yr adroddiad.
- (3) Nodi'r broses o gyflwyno Hysbysiadau dan y Rheoliadau Adeiladu (Arolygwyr Cymeradwy etc.) 2000, fel y'i nodir yn Adran C o'r adroddiad.

No.

1077 CEISIADAU CYNLLUNIO A BENDERFYNWYD GAN BENNAETH ADFYWIO A CHYNLLUNIO DAN BWERAU DIRPRWYEDIG (PAC) –

PENDERFYNWYD – BOD y ceisiadau fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad, ar dudalennau 9 trwy 27, o dan y pwerau wedi'u nodi uchod.

1078 APELIADAU (PAC) –

PENDERFYNWYD –

- (1) Nodi'r apeliadau a dderbyniwyd ar ôl i'r Cyngor wrthod rhoi caniatâd cynllunio, fel y'u nodir yn Adran A o'r adroddiad.
- (2) Nodi nad oedd unrhyw Apeliadau Gorfodi wedi'u derbyn ar adeg cynnal y cyfarfod.
- (3) Nodi'r Penderfyniadau Apeliadau Cynllunio, fel y manylwyd arnynt yn Adran C yr adroddiad.
- (4) Y DYLID nodi na dderbyniwyd unrhyw Benderfyniadau Apeliadau Gorfodi, fel y nodir yn Adran D yr adroddiad.
- (5) Nodi nad oedd unrhyw Benderfyniadau Apeliadau Gorfodi wedi'u derbyn ar adeg cynnal y cyfarfod.

1079 COED (PAC) –

- (i) Rhestr Ddirprwyedig

PENDERFYNWYD – Y dylid nodi'r ceisiadau fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad, ar dudalennau 35 a 38, fel y penderfynir gan y Pennaeth Adfywio a Chynllunio o dan bwerau dirprwyedig.

- (ii) Cadarnhau Gorchymyn Cadw Coed Rhif 6, 2021 ar gyfer Coed yn Hosbis Marie Curie, Bridgeman Road, Penarth

Roedd y safle'n ymwneud â Hosbis Marie Curie, a leolir ar Bridgeman Road, Penarth. Y goeden dan sylw oedd Cedrwydden yr Atlas Las, a leolir y tu ôl i'r adeilad ar hyd y ffin ogleddol â Thŵr y Parc. Roedd y safle o fewn Ardal Gadwraeth Penarth ac mae â'i gefn at Barc Hanesyddol Gerddi Windsor Rhestredig Gradd 2.

Cyflwynwyd Hysbysiad Adran 211 i dorri canghennau ochrol a oedd yn hongian dros eiddo cyfagos 1.5 i 2m (dan gyf. 2021/01477/TCA). Roedd y swyddogion o'r farn y byddai'r gwaith yn arwain at newidiadau sylweddol i siâp, ffurf a chydwyssedd y goeden, lle byddai torri'r prif ganghennau yn sylweddol yn anghybwysu ffurf y goeden ac yn effeithio arni'n sylweddol.

No.

Oherwydd ffurf nodedig Cedrwydden yr Atlas Las, ei chyflwr, ei disgwyliad oes a gwelededd y goeden o'r parc cyhoeddus yn y cefn, a'r cyfraniad a wnaeth i'r rhan hon o'r Ardal Gadwraeth, cyflwynwyd Gorchymyn Cadw Coed (GCC) (Rhif 6 2021) ar 10 Tachwedd, 2021.

Anfonwyd llythyrau at y perchnogion a'r cymdogion, a gafodd 28 diwrnod i roi sylwadau ar y GCC. Roedd yr awdurdod cynllunio wedi derbyn dau lythyr gwrthwynebu, a ystyriwyd yn fanwl isod. Er y cafwyd gwrthwynebiadau yn erbyn y GCC, ystyriwyd nad oedd yr un o'r materion a godwyd gan y gwrthwynebwyr yn rhoi digon o gyfiawnhad i ddiystyru'r rhesymau o blaid cadarnhau'r GCC. Felly, argymhellwyd y dylid cadarnhau'r GCC heb ei addasu.

Yng ngoleuni'r gwrthwynebiadau ac i ystyried y sylwadau ynddynt yn briodol, ymwelodd Swyddog Coedyddiaeth y Cyngor â'r safle hefyd. Ystyrir y gwrthwynebiadau hyn isod.

Gyda golwg ar y gwrthwynebiadau, nid oedd amheuaeth bod Cedrwydd yr Atlas Las yn aml yn cael eu canfod mewn ardaloedd mawr agored wedi'u tirweddu. Fodd bynnag, nid oedd lleoliad y goeden hon, yn seiliedig ar ei thwf presennol, o reidrwydd yn broblemus nac yn amhriodol, ar sail diffyg tystiolaeth i ddangos bod y lleoliad presennol hwn yn achosi niwed / difrod i unrhyw eiddo. Nid oedd y goeden yn arbennig o agos at y prif adeiladau ym mhob llain ac nid oedd y wal wedi llesteirio ei datblygiad yn sbesimen gymharol aeddfed ac o ansawdd uchel.

Yn arbennig, roedd y dail glas a'r ffurf byramidaidd yn ffactorau cyfrannol sylweddol i gyfiawnhau diogelu'r goeden hon o fewn yr asesiad TEMPO a'r pwysoliad a roddwyd i amwynder y goeden hon.

Mae'r gwrthwynebiadau'n mynegi pryderon ynghylch agosrwydd y goeden at y wal, sy'n eiddo i Dŵr y Parc, gan ddweud y bydd gwreiddiau'r goeden yn y pen draw yn tanseilio ac yn niweidio'r wal derfyn. Nid yw'r goeden yn gwbl aeddfed ac mae'r swyddogion yn cydnabod y gallai'r goeden effeithio ar y wal ymhen amser. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, nid oes unrhyw arwyddion amlwg o ddifrod / cracio i'r wal ac mae Swyddog Coed y Cyngor wedi datgan bod iechyd cyffredinol y goeden yn dda. Ni chyflwynwyd unrhyw dystiolaeth, ar ffurf arolwg strwythurol nac unrhyw asesiad coedyddiaeth, gyda'r sylwadau a wnaed, i roi unrhyw dystiolaeth bod y goeden yn achosi difrod i'r wal neu i unrhyw strwythurau cysylltiedig ar hyn o bryd. Hyd yn oed pan gaiff y GCC ei gadarnhau, gall yr awdurdod cynllunio lleol ystyried ceisiadau am waith i goed o'r fath os oes dystiolaeth bryd hynny bod y goeden yn achosi difrod uniongyrchol i waliau neu strwythurau eraill. Byddai unrhyw gais o'r fath yn cael ei asesu gan roi sylw i lefel a phwysau'r wybodaeth ategol a gyflwynir.

Wedi ystyried yr uchod, gwnaeth y Pwyllgor

Benderfynu – cadarnhau'r GCC unigol, heb ei addasu, i ddiogelu cymeriad ac amwynder y safle ac Ardal Gadwraeth Penarth.

No.

Y rheswm dros y penderfyniad

Mae'r penderfyniad i argymhell cadarnhau GCC wedi'i wneud yn unol ag Adran 198 Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (fel y'i diwygiwyd), sy'n rhoi pŵer i'r awdurdod cynllunio lleol wneud darpariaeth ar gyfer cadw coed neu goetiroedd.

1080 CEISIAD CYNLLUNIO (PAC) –

PENDERFYNWYD – Yn unol â'r pwerau a ddirprwywyd i'r Pwyllgor, y penderfynir ar y ceisiadau a ganlyn fel y nodir a chymryd unrhyw gamau angenrheidiol eraill.

**2021/00439/FUL** Derbyniwyd ar 21 Medi 2021  
(t49).

**YMGEISYDD:** Mr A Collins d/o Asiant, 39, Merthyr Mawr Rd, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF31 3NN

**ASIANT:** Mr Robert Hathaway Plan R Ltd, 39, Merthyr Mawr Rd, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 3NN

**Hillside, Pendeulwyn**

Codi tri lwrta a thoiledau lled-barhaol (lleoliad diwygiedig) a chreu mynedfa newydd i'r cae

CYMERADWYWYD, yn amodol ar yr amodau a gynhwysir yn yr adroddiad.

Y rheswm dros y penderfyniad

Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

**2021/01123/FUL** Derbyniwyd ar 28 Chwefror 2022  
(t74).

**YMGEISYDD:** DS Properties (Good Shed) Ltd d/o Asiant

**ASIANT:** Gwen Thomas Uned 9, Oak Tree Court, Parc Busnes Porth Caerdydd, Caerdydd, CF23 8RS

**Tir i'r De ac i'r Gorllewin o'r Goodsheds, Hood Road, Y Barri**

Cynnig i ddatblygu llety i dwristiaid a mannau cyflogaeth, ac i adleoli'r gampfa awyr agored ynghyd â gwaith cysylltiedig.

PENDERFYNWYD – Gohirio'r mater hwn.

Y rheswm dros y penderfyniad

Galluogi'r ymgynghoriadau i ddod i ben.

**2021/01136/FUL** Derbyniwyd ar 26 Ionawr 2022

(t91).

**YMGEISYDD:** Miss Sarah Jenkins 5 Ffordd Y Mileniwm, Y Barri, CF62 5BD

**ASIANT:** Miss Sarah Jenkins 5 Ffordd Y Mileniwm, Y Barri, CF62 5BD

### **5, Ffordd Y Mileniwm, Y Barri**

Codi ffens o amgylch yr ardd flaen

PENDERFYNWYD -

(1) Gwrthod y cais:

- (i) oherwydd ei lleoliad a'i dyluniad ac ymddangosiad cynllun agored y stryd, mae'r ffens yn y llain amlwg hon sy'n wynebu Ffordd y Mileniwm yn effeithio'n andwyol ar amwynder gweledol y strydlun ac yn gwanhau'n niweidiol y cymeriad agored cyson, sy'n nodwedd ddylunio allweddol o ddatblygiad Glannau'r Barri. Mae'r datblygiad, felly, yn groes i Bolisiau MD2 ac MD5 Cynllun Datblygu Lleol Mabwysiedig Bro Morgannwg ar gyfer 2011-2026 a'r cyngor yn Nodyn Cyngor Technegol 12 ac yn 11eg Argraffiad Polisi Cynllunio Cymru.

(2) Awdurdodi Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol i gyhoeddi Hysbysiad Gorfodi dan Adran 172 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (fel y'i diwygiwyd) i'w gwneud yn ofynnol i:

- (i) Dynnu'r ffens a'r deunyddiau sy'n deillio o'r gwaith hwnnw o'r tir.

(3) Ceisio awdurdod, os na chydymffurfir â'r Hysbysiad, i gymryd unrhyw gamau cyfreithiol sy'n ofynnol.

### Y rheswm dros y penderfyniad

Mae'r penderfyniad i wrthod caniatâd cynllunio wedi'i wneud yn unol ag Adran 38 Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, sy'n ei gwneud yn ofynnol, wrth benderfynu ar gais cynllunio, i'r penderfyniad fod yn unol â'r Cynllun Datblygu oni bai bod ystyriaethau perthnasol yn nodi fel arall. Mae'r Cynllun Datblygu ar gyfer yr ardal yn cynnwys Cynllun Datblygu Lleol Mabwysiedig Bro Morgannwg ar gyfer 2011-2026.

Ystyriwyd y dogfennau polisi morol priodol wrth benderfynu ar y cais hwn ac wrth ystyried yr adeilad sydd ar y safle ar hyn o bryd yn unol ag Adran 59 Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009.

Ystyrir bod y penderfyniad i wrthod caniatâd cynllunio ac i gyhoeddi hysbysiad gorfodi'n cydymffurfio ag amcanion lles y Cyngor a'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn unol â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

No.

Oherwydd ei lleoliad a'i dyluniad ac ymddangosiad cynllun agored y stryd, mae'r ffens yn y llain amlwg hon sy'n wynebu Ffordd y Mileniwm yn effeithio'n andwyol ar amwynder gweledol y strydlun ac yn gwanhau'n niweidiol y cymeriad agored cyson, sy'n nodwedd ddylunio allweddol o ddatblygiad Glannau'r Barri. Mae'r datblygiad, felly, yn groes i Bolisiâu MD2 ac MD5 Cynllun Datblygu Lleol Mabwysiedig Bro Morgannwg ar gyfer 2011-2026 a'r cyngor yn Nodyn Cyngor Technegol 12 ac yn 11eg Argraffiad Polisi Cynllunio Cymru.

**2021/01743/FUL** Derbyniwyd ar 13 Rhagfyr 2021  
(t103)

**YMGEISYDD:** Pegasus Developments (Glamorgan) Ltd d/o asiant ,  
**ASIANT:** Ms Kate Coventry 22 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ

### **Tir yn Coldbrook Road East, Tregatwg**

Codi 20 uned gerdded i fyny gyda mannau parcio a gwaith cysylltiedig.

CYMERADWYWYD, yn amodol ar yr amodau a gynhwysir yn yr adroddiad.

Y rheswm dros y penderfyniad

Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

**2022/00066/RG3** Derbyniwyd ar 21 Ionawr 2022  
(t135)

**YMGEISYDD:** Rheolwr Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif Swyddfeydd Dinesig,  
Heol Holltwn, Y Barri, CF63 4RU

**ASIANT:** Mr Nathan Slater Swyddfeydd Dinesig, Heol Holltwn, y Barri, CF63 4RU

### **Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sain Nicolas**

Ysgol gynradd newydd arfaethedig ar gyfer 126 o ddisgyblion ynghyd â chapasiti ychwanegol ar gyfer 24 o leoedd meithrin rhan amser, gan gynnwys gwaith cysylltiedig

CYMERADWYWYD, yn amodol ar yr amodau a gynhwysir yn yr adroddiad ac ar amod ychwanegol fel a ganlyn:

Cyn codi / gosod unrhyw oleuadau allanol ar y safle, rhaid cyflwyno manylion pellach am y goleuadau i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a rhaid i'r awdurdod hwnnw eu cymeradwyo'n ysgrifenedig. Rhaid i oleuadau'r safle wedyn fod yn unol â'r manylion cymeradwy.

Rheswm:

Er mwyn amwynder gweledol ac i sicrhau cydymffurfiaeth â Pholisiâu mD2 ac MD7 y cynllun datblygu lleol.

No.

Y rheswm dros y penderfyniad

Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

**2022/00067/CAC** Derbyniwyd ar 21 Chwefror 2022

(t172)

**YMGEISYDD:** Rheolwr Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif Swyddfeydd Dinesig, Heol Holltwn, Y Barri, CF63 4RU

**ASiant:** Mr Nathan Slater Swyddfeydd Dinesig, Heol Holltwn, y Barri, CF63 4RU

**Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sain Nicolas**

Dymchwel adeilad presennol yr ysgol ar ôl cwblhau'r ysgol newydd arfaethedig i greu manau parcio ar y safle a man gollwng/casglu i rieni.

CYMERADWYWYD, yn amodol ar yr amodau a gynhwysir yn yr adroddiad.

Y rheswm dros y penderfyniad

Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.